Press Release: Tuesday, 09 February 2021
Cufflink.io Ltd.

Cwmni seiberddiogelwch wedi sicrhau cymorth ariannol gwerth £500,000 i ddiogelu eich data.

Mae Cufflink, cwmni Preifatrwydd Data a Seiberddiogelwch o Ogledd Cymru, wedi llwyddo i gael gwerth dros £500,000 o gyllid ecwiti a grant i helpu i ddiogelu eich data personol.

Sefydlwyd Cufflink yn 2018 gan Billy Williams a Boris Grekov. Mae'r cwmni yn datblygu ap diogel i helpu pobl i reoli sut mae eu data personol yn cael eu defnyddio er mwyn eu helpu i fod yn fwy diogel a doeth wrth reoli data personol ar-lein.

Banc Datblygu Cymru oedd yn arwain y gronfa sbarduno cyllid ecwiti chwe ffigur, sy'n ategu buddsoddiad pellach pwysig gan grŵp o fuddsoddwyr sydd wedi'u lleoli yn Llundain.

Fel yr eglurodd Billy Williams, Prif Weithredwr Cufflink:

"Rydym yn falch iawn ein bod wedi llwyddo i sicrhau ein buddsoddiad ecwiti cyntaf ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at barhau i dyfu a datblygu ochr yn ochr â Banc Datblygu Cymru a'n angelion fel cyd-fuddsoddwyr."

Mae'r cyllid yn golygu y bydd Cufflink yn gallu parhau i ddatblygu ei ap a'i gynnig SaaS corfforaethol yn ogystal â pharhau i dyfu ac ehangu ei dîm o bell a'r tîm sydd wedi'i leoli ym Mharc Gwyddoniaeth Menai ar Ynys Môn ar yr un pryd. Bydd hyn yn creu amryw o gyfleoedd a swyddi uwch-dechnoleg yn yr ardal.

Hefyd, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor, mae Cufflink wedi cael cyllid grant ychwanegol gan Innovate UK – asiantaeth arloesi Llywodraeth y DU. Dan arweiniad yr Athro Andrew McStay a'r Athro Vian Bakir, bydd hyn yn golygu y bydd modd parhau i ymchwilio i'r ystyriaethau moesegol ehangach sy'n berthnasol i systemau rheoli gwybodaeth bersonol.

Nid oes gan 75% o oedolion y DU bellach ffydd mewn cwmnïau o ran eu data personol. Amcangyfrifir y bydd y farchnad gwybodaeth bersonol werth $19.5 biliwn erbyn 2025, ac mae Cufflink yn ymdrechu i adfer ac ennill peth o'r ffydd hwnnw'n ôl.

Mae ap Cufflink ar gael i'w ddefnyddio am ddim ac mae'n helpu pobl i storio ac amgryptio eu data personol yn rhwydd ac yn ddiogel ar eu dyfais. Gallwch hefyd rannu'r data personol hyn â ffrindiau a theulu neu eu rhoi dan drwydded i gwmnïau drwy gynnig SaaS corfforaethol lle mae perchennog y data yn rheoli mynediad ato. Mae'r swyddogaeth hon yn sicrhau mai'r defnyddiwr sydd bob amser yn rheoli pa ddata personol y mae'n eu rhannu ac i ba ddiben.

Ychwanegodd Billy:

"Yn y gorffennol, pan oedd gan rywun eich rhif ffôn neu eich cyfeiriad, roeddech yn ymddiried ynddo i'w gadw'n ddiogel ac i beidio â'i rannu. Nid felly y mae hi erbyn hyn."

"Rydym wedi colli rheolaeth dros ein gwybodaeth bersonol. Rydym yn ei rhoi i gorfforaethau mawr rhyngwladol i'w phrynu a'i gwerthu ac maen nhw'n gwybod mwy amdanom ni na'n teulu a'n ffrindiau yn y diwedd. Mae'n rhaid newid hyn."

"Rydym yn awyddus iawn i bobl ein helpu i greu ap gwell ac rydym yn annog pobl i gofrestru ar ein rhaglen Brofi drwy ein gwefan."

Drwy lawrlwytho ap Cufflink, mae pobl yn gallu storio neu rannu gymaint neu cyn lleied o'u gwybodaeth ag y maen nhw'n dymuno â'u teulu a'u ffrindiau. Mae'r wybodaeth yn cael ei diweddaru yn awtomatig iddyn nhw pan mae pethau'n newid. Mae pawb yn gallu cael yr wybodaeth ddiweddaraf a chadw mewn cysylltiad pan mae manylion cyswllt yn newid – gan gynnwys pan rydych yn symud tŷ neu'n newid swydd neu pan rydych yn diweddaru cyfrinair a rennir.

Mae gwasanaeth talu corfforaethol Cufflink yn cynnig ffordd fwy diogel, tryloyw a chywir, sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau, o reoli data eu cwsmeriaid i gwmnïau drwy ddefnyddio technolegau cyfriflyfr dosbarthedig mewn ffordd arloesol sydd dan ystyriaeth i gael patent ar hyn o bryd.

Drwy roi'r gwaith o reoli eu cysylltiadau yn ôl yn nwylo'r unigolion eu hunain, nod Cufflink yw lleihau'r gost o ran mynediad diawdurdod at ddata i bobl ac i gwmnïau fel ei gilydd.

Dywedodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru:

"Mae'n wych gweld cwmni fel Cufflink, sydd wedi ennill sawl gwobr, yn llwyddo yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae'n gwmni cyffrous ac arloesol a fydd yn dod â chyfleoedd sgiliau uchel i'r ardal. Dyma'r math o greadigrwydd ac uwch-dechnoleg roeddem yn gobeithio y byddai M-Sparc yn ei ysbrydoli yn y rhanbarth ac mae gen i ddiddordeb mawr mewn gweld sut bydd y cwmni'n parhau i dyfu ac i ddatblygu yn y sector deinamig hwn."

Dywedodd Michael Bakewell, aelod o dîm buddsoddi mewn mentrau technegol Banc Datblygu Cymru:

"Mae Cufflink yn gwmni seiberddiogelwch cyffrous iawn sydd â dyfodol hynod o addawol o'i flaen. Fel partner ecwiti hirdymor, rydym yn falch iawn o gael y cyfle i gyd-fuddsoddi â chwmni buddsoddi Angel ac i barhau â'n gwaith cydweithredol ag Innovate UK, Prifysgol Bangor ac M-SParc. Gyda'n gilydd, rydym yn cael effaith sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac rydym yn edrych ymlaen at gefnogi Cufflink ar eu siwrnai."

Ychwanegodd Pryderi ap Rhisiart, Rheolwr Cyfarwyddwr M-SParc:

"Mae'n wych gweld Cufflink yn cael cymorth cyhoeddus a phreifat fel rhan o'u cais llwyddiannus am gyllid. Dyma'r union fath o arloesi rydym am ei weld yn M-SParc, gan greu gyrfaoedd sgiliau uchel ac annog eraill i arloesi a mentro i fyd busnes. Mae Cwmnïau fel Cufflink yn cadarnhau bod modd tyfu a ffynnu yng Ngogledd Orllewin Cymru ac rydym yn parhau i weld cyfleoedd newydd a chyffrous yn codi yn yr ecosystem."

Derbyniodd Cufflink wobr Busnes Seiber Newydd y Flwyddyn yng Ngwobrau Busnesau Newydd Cymru 2020.

Gallwch lawrlwytho ap Cufflink drwy ymuno â'r rhaglen brofi BETA ar y wefan neu drwy ymweld â https://cufflink.io/contact-us-beta/

DIWEDD

Llun: Mae llun o (o'r chwith i'r dde) Callum Murray, Boris Grekov a Billy Williams wedi atodi ar gyfer eich ddefnydd. (Cafodd y llun yma ei tynnu cyn y pandemig)

Am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r datganiad hwn i'r wasg neu am ymholiadau eraill, e-bostiwch enquiries@cufflink.io

Nodiadau:

Amcangyfrifir y bydd y Farchnad Gwybodaeth Bersonol yn werth $19.4 biliwn erbyn 2025

https://www.marketwatch.com/press-release/personal-identity-management-market-estimated-to-reach-194-billion-by-2025-2020-12-09

"Nid oes gan 75% o oedolion y DU bellach ffydd mewn cwmnïau o ran eu data personol" – Comisiynydd Gwybodaeth y DU – Elizabeth Denham

https://www.thinkdigitalpartners.com/news/2017/01/18/gdpr-issue-new-era-accountability-ico-says/

Yn ddiweddar, daeth Cufflink i'r brig yng nghategori Busnes Seiber Newydd y Flwyddyn yng Ngwobrau Busnesau Newydd Cymru 2020.

https://walesstartupawards.com/awards/2020#winners

Innovate UK

Mae Innovate UK yn ysgogi cynhyrchiant a thwf economaidd drwy gefnogi busnesau i ddatblygu a gwireddu potensial syniadau newydd.

Rydym yn cysylltu busnesau â'r partneriaid, y cwsmeriaid a'r buddsoddwyr sy'n gallu eu helpu i droi eu syniadau yn gynnyrch ac yn wasanaethau masnachol llwyddiannus ac i dyfu eu busnes.

Rydym yn ariannu mentrau cydweithredol ym maes busnes ac ymchwil er mwyn sbarduno arloesedd ac ysgogi busnesau i fuddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu. Mae Cymorth ar gael i fusnesau ar draws bob sector economaidd, cadwyn gwerth a rhanbarth yn y DU. Mae Innovate UK yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.innovateuk.ukri.org

Manylion Cyswllt Cufflink

Gwefan: www.cufflink.io

E-bost : info@Cufflink.io

Ffôn : +44(0)7957470414